Os ydych yn amheus o gwbl:

- Ystyriwch ofyn i gwsmer sy'n gwneud ymholiad dros y ffôn gadarnhau'r ymholiad drwy anfon ffacs.
- Allwch chi oedi'r broses? Cynigiwch ffonio'n ôl ar ôl edrych os yw'r eitemau mewn stoc; gofynnwch am fanylion cardiau credyd ayyb.
- Yn y cyfamser, ffoniwch y Llinell Gwrthderfysgaeth Frys cyn gynted â phosibl ar **0800 789321.**
- Cofnodwch gymaint o fanylion ag y gallwch e.e.
- Disgrifiad o'r unigolion.
- Manylion unrhyw gerbydau a ddefnyddiwyd, gan gynnwys gwneuthuriad, model, lliw a rhif cofrestru.
- Rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost a roddwyd.
- Oes gennych chi system TCC? Daliwch eich gafael ar unrhyw luniau o'r unigolion.

CHEMICAL INDUSTRIES ASSOCIATION

Chemical Business Association

ACPO

Cynhyrchwyd gan y Swyddfa Diogelwch Gwrthderfgysgaeth Genedlaethol

ADNABOD EICH CWSMER!

Ydych chi'n adnabod y cwsmer?

- Ydy'n nhw'n ffitio proffil arferol eich cwsmeriaid?
- Ydy'n nhw'n amharod i roi manylion cysylltu?
- Ydy'r unigolyn yn ceisio osgoi rhoi atebion uniongyrchol?

Ydyn nhw'n gyfarwydd â'r cynnyrch?

- Ydyn nhw'n gyfarwydd â defnydd a nodweddion y cynnyrch y maen nhw am ei brynu?
- A oes amodau arbennig ar gyfer trin y cynnyrch?
- Ydy'r unigolyn yma'n gwybod beth yw amodau trin y cynnyrch?

Ydy'r archeb am faint neu grynhoad anarferol o gynnyrch?

- Archeb anarferol o fychan neu eithriadol o fawr o gymharu ag archebion arferol.
- Ydy'r cynnyrch o'r cryfder addas ar gyfer yr hyn y dywedodd y cwsmer yr oedd am ei ddefnyddio?
- Oes ganddyn nhw ddefnydd cyfreithiol ar gyfer y cynnyrch?

Ydy'r cyfuniad o gemegau yn anarferol neu od?

- Ydy'r cemegau hyn wedi cael eu rhestru fel rhagsylweddion ar gyfer ffrwydron cartref a/ neu at ddefnydd yn ymwneud â chyffuriau?
- Ydy'r cemegau wedi eu rhestru yng nghôd ymddygiad y Chemical Industries Association & Chemical Business Association.

Ydy'r cwsmer eisiau talu mewn arian parod?

- Waeth faint yw gwerth yr archeb.
- Oes gan y cwsmer gerdyn credyd?

Danfoniad

- Ydy'r cwsmer yn dymuno dod i nôl y cemegau ei hun?
- Ydy'r cwsmer wedi gofyn am y nwyddau mewn cynwysyddion bychan, lle dywedwyd fod y nwyddau at ddefnydd diwydiannol?
- Ydy'r cwsmer am ddod i nôl y cemegau mewn cerbyd preifat?
- Ydych chi'n gwybod i ba gyfeiriad y bydd y nwyddau'n cael eu danfon?
- Ydy'r cwsmer wedi gwneud cais am i'r nwyddau gael eu danfon mewn ffordd od neu amheus?